

<b>Adroddiad i'r:</b>	Cyngor Sir
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	26 Mawrth 2019
<b>Aelod Arweiniol / Swyddog:</b>	Cyng. Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai, Rheoleiddio a'r Amgylchedd
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	Gary Williams, Pennaeth Gwasanaethau'r Gyfraith, Adnoddau Dynol a Democrataidd
<b>Teitl:</b>	<b>Cyfleuster Gwaredu Daearegol - Papur Ymgynghori Gwerthuso Safle</b>

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad am y papur ymgynghori cyhoeddus "Gwerthuso Safle – sut y byddwn yn gwerthuso safleoedd yng Nghymru" a gyhoeddwyd gan Radioactive Waste Management Ltd., mewn perthynas â'r broses y byddant yn gwerthuso safleoedd posibl ar gyfer datblygu cyfleuster gwaredu daearegol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

I geisio barn Aelodau ar y materion a godwyd gan y papur ymgynghoriad cyhoeddus hwn er mwyn drafftio ymateb ar ran y Cyngor.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Cyngor yn ystyried ac yn rhoi sylwadau ar gynnwys y papur ymgynghori "Gwerthuso Safle – sut y byddwn yn gwerthuso safleoedd yng Nghymru" ac awdurdodi'r Aelod Arweiniol i gymeradwyo ymateb ar ran y Cyngor mewn ymgynghoriad ag Arweinwyr Grŵp.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Ym mis Mai 2015, ar ôl adolygu polisi ac ymgynghoriad cyhoeddus, roedd Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu polisi yn cefnogi gwarediad daearegol ar gyfer rheoli gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd yn y tymor hir. Mae gwaredu daearegol yn cynnwys rhoi gwastraff ymbelydredd yn ddyfn dan ddaear i sicrhau bod deunydd peryglus yn cael ei gadw draw oddi wrth bobl a'r amgylchedd drwy ynysu a chynnal y gwastraff mewn amgylchedd daearegol addas ar gyfer yr amser sy'n ofynnol i'r ymbelydredd sy'n gysylltiedig leihau'n naturiol.

4.2 Ar ôl mabwysiadu gwaredu daearegol ymunodd Llywodraeth Cymru â rhaglen, a ariannwyd gan Lywodraeth y DU, i geisio cael un cyfleuster gwaredu daearegol ar gyfer y gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd o Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Bydd y rhaglen yn cael ei darparu gan Radioactive Waste Management Ltd (RWM), is-gorff

Awdurdod Datgomisiynu Niwclear.

4.3 Er bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi gwarediad daearegol, nid yw hyn yn golygu yn angenrheidiol y bydd cyfleuster gwarediad daearegol yn cael ei adeiladu yng Nghymru neu y bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio cael cyfleuster gwarediad daearegol wedi'i adeiladu yng Nghymru. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi ystyried na nodi unrhyw safleoedd posibl na chymunedau ar gyfer cyfleuster gwarediad daearegol yng Nghymru. Polisi Llywodraeth Cymru yw y gellir ond ystyried cyfleuster gwarediad daearegol os bydd cymuned yn fodlon cynnig llety iddo.

4.4 Yn Ionawr 2019, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus pellach, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad polisi yn nodi amlinelliad bras o drefniadau ar gyfer gweithio gyda chymunedau posibl yng Nghymru pe bai unrhyw un yn dymuno cael trafodaethau am y posibilrwydd o gynnig llety i gyfleuster gwarediad daearegol. Mae copi o'r polisi hwn ynghlwm fel Atodiad 1. Mae'r polisi hwn yn darparu ar gyfer Arian Buddsoddi Cymunedol. Unwaith y sefydlir Partneriaeth Gymunedol (gweler para 4.9 a 4.10 isod), bydd yn gallu ymgeisio am Arian Buddsoddi Cymunedol fydd hyd at £1 miliwn y flwyddyn yn ystod rhan gychwynol y broses, yn codi i £2.5 miliwn y flwyddyn mewn ardaloedd sy'n symud i ymchwiliadau mwy manwl fel tyllau turio dyfn i asesu cynaliadwyedd daearegol safle. Awgrymir y gall y broses werthuso gymryd hyd at 20 mlynedd, gyda'r cam cychwynol yn cymryd 5 mlynedd a'r ymchwiliadau mwy manwl hyd at 15 mlynedd.

4.5 Mae papur ymgynghori nawr wedi'i lunio gan RWM "Gwerthuso Safle - Sut y byddwn yn gwerthuso safleoedd yng Nghymru." Mae'r papur hwn yn ceisio barn ar y broses ar gyfer gwerthuso safleoedd. Mae copi o'r papur ymgynghori hwn ynghlwm fel Atodiad 2.

4.6 Mae'r papur yn cynnwys y broses ar gyfer ystyried safleoedd posibl. Gall unrhyw unigolyn neu grŵp o bobl ddechrau trafodaethau ar leoliad arfaethedig ar gyfer cyfleuster gwarediad daearegol. Mae'r trafodaethau hyn yn cael eu galw yn Drafodaethau Cychwynol.

4.7 Unwaith y bydd gwybodaeth wedi'i chyfnewid rhwng partiön â diddordeb ac RWM, a chytundeb rhyngddynt bod cynnig yn haeddu ystyriaeth bellach, mae'n rhaid i bob awdurdod lleol perthnasol gael ei hysbysu cyn y bydd y cynnig yn cael ei wneud yn gyhoeddus. Bydd awdurdodau lleol perthnasol yn unrhyw awdurdod unedol y mae eu hardal yn ffurfio rhan o'r cynnig.

4.8 Yna caiff Gweithgor ei ffurfio yn cynnwys y partiön â diddordeb, RWM, cadeirydd annibynnol a hwylusydd. Nid yw'n rhaid i Awdurdodau Lleol gael eu cynrychioli ar y grŵp ond mae'r papur yn awgrymu y ffefrir hyn.

4.9 Bydd y Gweithgor yn nodi'r ardal ddaearyddol lle caniateir i RWM geisio dod o hyd i safleoedd addas posibl a dechrau casglu gwybodaeth am y bobl a'r sefydliadau yn yr ardal sy'n debyg o gael eu heffeithio gan y cynigion er mwyn nodi aelodau ar gyfer Partneriaeth Gymunedol y dyfodol. Mae'n rhaid i awdurdod neu awdurdodau lleol mewn ardal gytuno i gyfrannu er mwyn i Bartneriaeth Gymunedol gael ei ffurfio a pharhau i weithredu. Os bydd

awdurdod lleol yn penderfynu peidio bod yn aelod yna ni fydd yr ardal o fewn ei ffiniau yn ffurfio rhan o'r ardal chwilio.

4.10 Bydd Partneriaeth Gymunedol yn cynnwys aelodau o'r gymuned, sefydliadau, RWM a'r awdurdodau lleol perthnasol. Bydd yn fodd o rannu gwybodaeth gyda'r gymuned ac ateb cwestiynau gan y gymuned.

4.11 Cyn y gellir gwneud unrhyw benderfyniad i geisio caniatâd cynllunio neu unrhyw gymeradwyaeth rheoleiddio ar gyfer Cyfleuster Gwarediad Daearegol mae'n rhaid cael Prawf o Gefnogaeth y Cyhoedd. Bydd yr awdurdod lleol perthnasol yn penderfynu os neu pan i gynnal Prawf o Gefnogaeth y Cyhoedd. Gall cymuned dynnu allan o'r broses ar unrhyw adeg hyd nes y bydd wedi cynnal Prawf o Gefnogaeth y Cyhoedd. Gall yr awdurdod lleol perthnasol weithredu'r hawl hwn i dynnu allan.

4.12 Os bydd y Prawf o Gefnogaeth y Cyhoedd yn arwain at gymuned yn mynegi dymuniad i gynnal Cyfleuster Gwarediad Daearegol, bydd yr hawl i dynnu allan yn dod i ben. Gall Prawf o Gefnogaeth y Cyhoedd fod mewn ffurf refferendwm, ymgynghoriad neu bleidlais cynrychiolaeth ystadegol.

4.13 Mae gan RWM hefyd yr hawl i dynnu allan o'r broses ar unrhyw adeg os bydd yn penderfynu bod y broses yn annhebygol o fod yn llwyddiannus mewn unrhyw gymuned.

4.14 Mae'r papur yn cyfeirio at y camau a ddisgrifir uchod fel Gofynion y Broses Lleoliad.

4.15 Yn ogystal, mae'r papur yn nodi'r hyn a ystyrir yn ofynion Cyfreithiol ar gyfer lleoliad Cyfleuster Gwarediad Daearegol. Mae'r rhain yn cynnwys Caniatâd Cynllunio, Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol, Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, Trwydded Safle Niwclear, Rheoliadau Diwydiant Niwclear a Thrwyddedau Amgylcheddol.

4.16 Mae RWM wedi datblygu chwe Ffactor Lleoli maent yn eu hystyried fel y materion allweddol ar gyfer trafodaeth gyda chymunedau. Sef:

Diogelwch

Cymuned

Yr Amgylchedd

Dichonoldeb Peirianeg,

Cludiant a

Chost

Mae disgrifiad byr o'r ffactorau hyn wedi eu cynnwys yn Nhabl 1 ar dudalen 12 o Atodiad 2.

4.17 Ar gyfer pob un o'r ffactorau lleoli hyn mae nifer o ystyriaethau gwerthuso wedi eu cynnwys ar gyfer gwerthuso mwy manwl wrth i'r cynnig symud drwy'r broses. Mae'r rhain wedi eu cynnwys yn Nhablau 2-7 ar dudalennau 13-18 Atodiad 2.

4.18 Mae'r papur yn cynnwys pedwar cwestiwn ymgynghori:

1. Oes yna unrhyw ffynonellau eraill o ofynion lefel uchel heblaw gofynion y broses lleoli a gofynion Cyfreithiol a nodwyd, y teimlwch ddylai gael eu hadlewyrchu yn y gwerthusiad o'r safle a pham?
2. Ydych chi'n cytuno â'r Ffactorau Lleoli a nodwyd? A oes unrhyw Ffactorau Lleoli eraill y dylid eu cynnwys a pham?
3. Ydych chi'n cytuno â'r Ystyriaethau Gwerthuso a nodwyd? A oes unrhyw Ystyriaethau Gwerthuso eraill y dylid eu cynnwys a pham?
4. Oes yna unrhyw beth arall y teimlwch y dylid eu hystyried mewn gwerthusiadau safle a pham?

4.19 Awgrymir o'r farn a fynegwyd gan aelodau, y bydd ymateb i'r ymgynghoriad yn cael ei lunio ar gyfer cymeradwyaeth gan yr Arweinydd mewn ymgynghoriad ag Arweinwyr Grŵp.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Nid yw'r ymarfer ymgynghori yn ei hun yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Ni fydd yr ymateb i'r papur ymgynghori yn ei hun yn cynnwys unrhyw gostau uniongyrchol.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb?**

Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?**

Mae hwn yn ymarfer ymgynghori a gynhelir gan Radioactive Waste Management Ltd. Ni fu unrhyw ymgynghoriad uniongyrchol gyda'r Pwyllgor Craffu.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig ag ymateb i'r ymgynghoriad, sy'n nodi'r broses ar gyfer ystyried safleoedd posibl. Yn amlwg, byddai unrhyw gynnydd tuag at nodi safle yn benderfyniad mawr ar lefel genedlaethol gyda goblygiadau ariannol a risg sylweddol

**10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Nid oes unrhyw risgiau penodol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

## **11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

a111 Deddf Llywodraeth Leol 1972